

Cymorth i grwpiau seneddol

Cymariaethau â'r DU ac yn fyd-eang

Hydref 2023

Mae'r papur tystiolaeth hwn yn ystyried gwahanol ddulliau o gefnogi grwpiau seneddol pleidiau, gan ddefnyddio tystiolaeth o bob rhan o'r DU ac yn rhyngwladol.

Mae'r papur hwn wedi'u lunio i gefnogi gwaith Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd, yn benodol, yr adolygiad thematig ar y Lwfans Cymorth i Bleidiau Gwleidyddol (sef y PPSA).

Mae grwpiau pleidiau seneddol yn bodoli mewn nifer o ddeddfwrfeydd. Fodd bynnag, ymddengys nad oes diffiniad y cytunir arno ynghylch pwrpas y grwpiau hyn, nac i ba raddau y dylent gael eu cefnogi gan y Senedd y maent yn gweithredu ynddi.

Felly, er nad oes modd i'r gymhariaeth yn y papur hwn fynegi barn gyffredin, mae'n rhoi syniad o'r materion allweddol y dylai adolygiad o'r PPSA eu hystyried, ynghyd â'r pwyntiau allweddol o gydgyfeiriad neu wahaniaeth rhwng Seneddau.

Cynnwys

1. Crynodeb Gweithredol.....	4
2. Cyflwyniad.....	7
Adolygiadau thematig	7
Y Lwfans Cymorth i Bleidiau Gwleidyddol	7
Gwerth cymhariaeth	8
Beth yw grŵp seneddol plaid a sut mae'n wahanol i blaid wleidyddol?.....	9
3. Cymariaethau â'r DU	11
Senedd y DU: Cymorth ariannol i wrthbleidiau ("arian byr")	11
Senedd yr Alban: Cymorth ariannol i grwpiau nad ydynt yn y Llywodraeth.....	13
Senedd yr Alban: Lwfans Arweinwyr Pleidiau.....	14
Gogledd Iwerddon: Cynllun Cymorth Ariannol ar gyfer Pleidiau Gwleidyddol	16
4. Cymariaethau rhyngwladol	18
Oireachtas – Gweriniaeth Iwerddon	18
Yr Almaen	21
Awstria	22
Seland Newydd	22
Y Ffindir	24
Sweden	25
Norwy.....	25
Gwlad yr Iâ	26
Denmarc.....	26
Llenyddiaeth bresennol ar ddulliau cymharol.....	27
Y cenhedloedd Nordig	28
5. Casgliad	30

6. Atodiad Un: Crynodeb o ddyraniadau gwahaniaethol ar gyfer y grwpiau sydd yn y llywodraeth a grwpiau anllywodraethol31

1. Crynodeb Gweithredol

Mae grwpiau pleidiau seneddol yn bodoli mewn nifer o ddeddfwrfeydd. Fodd bynnag, ymddengys nad oes diffiniad y cytunir arno ynghylch pwrpas y grwpiau hyn, nac i ba raddau y dylent gael eu cefnogi gan y Senedd y maent yn gweithredu ynddi.

Mae'r diffiniad o'r hyn a olygir gan grŵp plaid seneddol yn amrywio rhwng Seneddau, ond mae adroddiad a baratowyd ar gyfer Senedd Ewrop yn 2021 yn cynnwys crynodeb defnyddiol o'r rolau y mae grwpiau pleidiau seneddol yn tueddu i'w chwarae:

*"...they distribute tasks and responsibilities between their members, facilitate decision-making by aggregating the individual interest of the group members and negotiation of compromises between parliamentarians of different political affiliations, and contribute to informing the public on parliamentary decision-making processes."*¹

Yn y rhan fwyaf o achosion mae grŵp seneddol plaid yn cael ei ffurfio o aelodau etholedig o'r un blaid wleidyddol ac yn darparu swyddogaeth trefnu ganolog i'r aelodau hynny. Mewn rhai achosion, mae'r grŵp hefyd yn darparu cymorth penodol i arweinydd y grŵp.

Mae'r gwahaniaeth rhwng grŵp plaid seneddol a phlaid wleidyddol yn hollbwysig. Mae'r berthynas rhwng y ddau yn amrywio rhwng cenhedloedd, ac mae'r rheolau o ran eu hariannu hefyd yn amrywio i raddau gwahanol. Fodd bynnag, yn gyffredinol, mae grŵp plaid seneddol yn canolbwyntio'n benodol ar waith y Senedd dan sylw a dyletswyddau ei Haelodau etholedig. Yn y cyfamser, mae plaid wleidyddol yn cymryd rhan mewn gweithgarwch penodol o ran ymgyrchu etholiadol, ac mae ei haelodaeth yn fwy eang o lawer na'i haelodau etholedig.

Mae cefnogaeth i grwpiau gwleidyddol neu bleidiau yn y senedd yn wahanol mewn ffyrdd nodedig ar draws y deddfwrfeydd a adolygwyd ar gyfer y papur hwn.

¹ Senedd Ewrop (2021) *Financing of political structures in EU Member States – How funding is provided to national political parties, their foundations and parliamentary political groups and how the use of funds is controlled*
https://www.europarl.europa.eu/meetdocs/2014_2019/plmrep/COMMITTEES/AFCO/DV/2021/10-27/2021-JUNE_PE694.836_Financingpoliticalstructures_withAnnex3_EN.pdf

Dyraniad

Yn y rhan fwyaf o'r enghreifftiau a adolygwyd, darperir cyllid i **grwpiau seneddol pleidiau**. Mewn rhai, fel y DU, yr Alban ac Iwerddon, cyfeirir yn lle hynny at "bleidiau", ond gyda chyfyngiad clir y dylid defnyddio unrhyw gyllid i gefnogi dyletswyddau seneddol.

Ym mron pob un o'r enghreifftiau a adolygwyd, mae dyraniad cyllid grŵp seneddol yn gysylltiedig mewn rhyw ffordd â maint y grŵp, neu nifer yr Aelodau sy'n gysylltiedig â phlaid gofrestredig. Mae rhai modelau wedi'u seilio'n llwyr ar gyfrifiad fesul aelod, tra bod eraill hefyd yn cynnwys elfen sylfaenol, sydd ar gael i bob grŵp cymwys - y Senedd, yr Almaen, Sweden.

Mae rhai modelau'n eithrio grwpiau sy'n cael eu cynrychioli mewn llywodraeth yn llwyr (Senedd y DU). Mewn modelau eraill, mae'n gyffredin i ryw fath o ostyngiad neu ategiad gael ei gymhwyso fel bod y gwrthbleidiau yn cael swm uwch o gyllid. Er enghraifft, yn y Senedd mae swm yr arian sydd ar gael i grŵp a gynrychiolir mewn llywodraeth wedi'i gapio, yn Iwerddon mae'r gyfradd fesul Aelod yn cael ei ostwng ar gyfer pleidiau'r llywodraeth ac yn Norwy mae grwpiau gwrthbleidiau o dri i bedwar Aelod yn cael 50 y cant yn fwy o gefnogaeth, tra bod grwpiau o fwy na phump yn cael cynnydd 100 y cant mewn cyllid. Mae rhai o'r enghreifftiau a adolygir yn defnyddio system haenog yn seiliedig ar faint grŵp, gyda'r gyfradd fesul aelod yn gostwng wrth i faint cyffredinol y grŵp gynyddu, e.e. Iwerddon.

Mae gan nifer fach o Seneddau drefniadau penodol ar gyfer darparu cymorth i arweinwyr y gwrthbleidiau. Ymddengys fod y sefyllfa hon yn llai cyffredin yn yr enghreifftiau rhyngwladol, lle mae'r ffocws ar grwpiau yn hytrach nag arweinwyr wrth bennu dyraniadau. Fodd bynnag, mae'n arfer gyffredin i arweinwyr y grwpiau gael eu nodi'n benodol mewn rheolau a rheoliadau sy'n ymwneud ag adrodd ar y defnydd o gymorth seneddol.

Diben a chyfyngiadau ar ddefnydd

Mae llawer o Seneddau yn gwahaniaethu'n glir rhwng gweithgarwch seneddol a gweithgarwch gwleidyddol, gyda rheolau a rheoliadau ar waith sy'n ceisio cyfyngu'r defnydd o gyllid seneddol i weithgarwch seneddol.

Mae lefel y manylion a ddarperir i grwpiau o ran yr hyn sy'n wariant cymwys neu'n wariant anghymwys yn amrywio'n sylweddol. Mae gan rai Seneddau ganllawiau mwy manwl ar waith, ac mae gan eraill ddiffiniad lefel uchel o "fusnes seneddol" y disgwylir i bob grŵp ac Aelod gydymffurfio ag ef.

Mae nifer o'r seneddau sydd wedi'u cynnwys yn y papur hwn yn nodi bod gwariant ar gyfathrebu cyfreithlon neu weithgarwch cysylltiadau cyhoeddus yn wariant cymwys, ond yn datgan yn bendant na all y gweithgarwch hwn gynnwys unrhyw ymgyrchu gwleidyddol na chyfathrebu mewn perthynas ag ymgyrchu gwleidyddol.

Mae gwariant cyfreithlon a ddyfynnwyd yn gyffredin ar gyfer cyllid grŵp seneddol plaid yn cynnwys gweinyddu canolog a chydlynu grwpiau, ymchwil ganolog a llunio polisi, cydlynu a chymorth cyfathrebu, offer, hyfforddiant, gwasanaethau a staffio i gefnogi'r grŵp.

Adrodd ac atebolrwydd

Mae gan y rhan fwyaf o Seneddau system ar waith lle mae grwpiau ac Aelodau yn cael eu dwyn i gyfrif ynghylch eu defnydd o gymorth ariannol. Y dull mwyaf cyffredin yw ei gwneud yn ofynnol i grwpiau adrodd yn rheolaidd ar eu defnydd o arian, ynghyd â rhyw fath o archwilio annibynnol. Mae'n gyffredin i arweinydd y grŵp neu chwip y grŵp fod yn gyfrifol am sicrhau cydymffurfiaeth â rheolau gwariant ac adrodd.

Yn Senedd y DU, Senedd yr Alban ac Oireachtas Iwerddon, rhaid llunio datganiad o wariant, ynghyd ag adroddiad gan archwilydd annibynnol, yn flynyddol. Yng Ngogledd Iwerddon, cyhoeddir gwariant gan bob plaid yn chwarterol, gyda'r Comisiwn yn trefnu adolygiad blynyddol gan archwilydd annibynnol.

2. Cyflwyniad

Mae Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd (y Bwrdd) yn gwneud penderfyniadau annibynnol ar y cyflog a'r cymorth uniongyrchol a roddir i Aelodau o'r Senedd. Mae'r Bwrdd yn gwneud penderfyniadau ar sail tair egwyddor arweiniol:

1. Dylai ein penderfyniadau fod yn briodol yng nghyd-destun enillion yng Nghymru ac amgylchiadau ariannol ehangach Cymru.
2. Dylai ein penderfyniadau gefnogi pwrpas strategol y Senedd a hwyluso gwaith ei Haelodau.
3. Dylai ein penderfyniadau fod yn gadarn, yn glir, yn dryloyw, yn gynaliadwy, yn gynhwysol, ac yn cynrychioli gwerth i'r trethdalwr.

Cyn pob tymor Seneddol, mae'r Bwrdd yn gwneud Penderfyniad newydd ar Gyflog a Lwfansau'r Aelodau. Mae'r Penderfyniad yn nodi'r system cymorth ariannol a thâl ar gyfer Aelodau. Bob blwyddyn mae adolygiad blynyddol yn ystyried a oes angen gwneud unrhyw newidiadau i unrhyw lwfansau, ac eithrio cyflogau'r Aelodau (oni bai bod amgylchiadau eithriadol).

Adolygiadau thematig

Mae'r Bwrdd wrthi'n cynnal rhaglen o adolygiadau thematig, a fydd yn edrych yn fanylach ar elfennau o'r Penderfyniad. Mae'r gwaith hwn yn arbennig o bwysig yng nghyd-destun diwygio'r Senedd arfaethedig, a allai newid maint a chyfansoddiad y Seithfed Senedd yn sylweddol.

Mae pum adolygiad:

- Symleiddio
- Ffyrdd o weithio
- Cymorth Staffio
- Y Lwfans Cymorth i Bleidiau Gwleidyddol
- Taliadau a Chymorth Personol i'r Aelodau

Y Lwfans Cymorth i Bleidiau Gwleidyddol

O dan y Penderfyniad, mae gan grwpiau seneddol y pleidiau hawl i gael cymorth ariannol - y Lwfans Cymorth i Bleidiau Gwleidyddol, a elwir hefyd yn PPSA.

Diben y lwfans hwn yw cynorthwyo'r pleidiau yn y broses o wneud eu gwaith yn y Senedd. Dim ond mewn perthynas â chostau yr eir iddynt gan Aelodau yn gyfan gwbl, yn unig ac o reidrwydd at ddibenion cyflawni dyletswyddau Aelod, y mae'r PPSA yn daladwy.²

Nid oes rhestr gynhwysfawr o eitemau derbyniadwy wedi'i nodi, ac mae'r union ddefnydd o PPSA yn wahanol rhwng grwpiau seneddol pleidiau, ond nodir yr enghreifftiau canlynol yn y Penderfyniad – cyflogi staff mewn swydd weinyddol, cyflogi staff i wneud ymchwil, costau goramser, teithio ac ati a chaffael offer swyddfa a llogi cyfleusterau.³

Mae'r system bresennol ar gyfer PPSA wedi bod ar waith ers 2015, er bod rhai elfennau o'r model yn parhau i fod heb eu newid i raddau helaeth ers y Cynulliad cyntaf.

Ers 1999, mae'r Senedd wedi newid yn sylweddol, gan ddod yn endid cwbl ar wahân i'r weithrediaeth (Llywodraeth Cymru) ac ennill pwerau deddfwriaethol sylfaenol. Mae'n ddigon posib y bydd newid pellach yn digwydd cyn y Seithfed Senedd.

Yn y cyd-destun hwn y mae'r adolygiad o PPSA yn cael ei gynnal. Bydd yn ystyried diben y cymorth i'r pleidiau neu grwpiau, dadansoddiad cymharol â modelau cyllido seneddol eraill, a'r effaith a'r goblygiadau cyn diwygio'r Senedd, ac yn dilyn hynny.

Gwerth cymhariaeth

Nid yw'r Senedd yn unigryw o ran darparu cyllid i'w grwpiau plaid. Mae darparu rhyw fath o gymorth yn arfer gyffredin ar draws Seneddau'r DU ac yn rhyngwladol. Gan fod pob Senedd yn gweithredu o dan set unigryw o amgylchiadau, mae'r modelau o ran darparu cymorth ar gyfer grwpiau pleidiau seneddol yn amrywio tipyn.

Fodd bynnag, gall y broses o gymharu'r PPSA â'r modelau amgen hyn fod yn sylfaen dystiolaeth ddefnyddiol y gellir ei defnyddio i wneud argymhellion cyn y Seithfed Senedd.

Ymddengys mai cyfyngedig fu'r gwaith ymchwil hyd yma o ran cymharu modelau o ddarparu cymorth ar gyfer grwpiau pleidiau seneddol. Mae'r wybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd yn amrywio ar gyfer gwahanol ddeddfwrfeydd. Fodd bynnag, mae rhai adroddiadau sy'n ystyried gwahanol ddulliau a ddefnyddir ar draws ardaloedd daearyddol penodol, fel yr UE a'r cenhedloedd Nordig.

² Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd (2023) *Y Penderfyniad ar Gyflogau a Lwfansau'r Aelodau 2023-2024*

³ Ibid.

Beth yw grŵp seneddol plaid a sut mae'n wahanol i blaid wleidyddol?

Un cwestiwn pwysig i'w ystyried yw beth yn union yw grŵp seneddol plaid a sut mae'n wahanol i blaid wleidyddol?

Mae'r diffiniad o'r hyn a olygir gan grŵp plaid seneddol yn amrywio rhwng Seneddau, ond mae adroddiad a baratowyd ar gyfer Senedd Ewrop yn 2021 yn cynnwys crynodeb defnyddiol o'r rolau y mae grwpiau pleidiau seneddol yn tueddu i'w chwarae:

*"...they distribute tasks and responsibilities between their members, facilitate decision-making by aggregating the individual interest of the group members and negotiation of compromises between parliamentarians of different political affiliations, and contribute to informing the public on parliamentary decision-making processes."*⁴

Yn y rhan fwyaf o achosion mae grŵp seneddol plaid yn cael ei ffurfio o aelodau etholedig o'r un blaid wleidyddol ac yn darparu swyddogaeth trefnu ganolog i'r aelodau hynny. Mewn rhai achosion, mae'r grŵp hefyd yn darparu cymorth penodol i arweinydd y grŵp.

Ar hyn o bryd, mae grŵp gwleidyddol yn y Senedd yn cael ei ddiffinio yn Rheolau Sefydlog Senedd Cymru fel a ganlyn:

"(i) grŵp a chanddo o leiaf dri Aelod sy'n perthyn i'r un blaid wleidyddol gofrestredig a enillodd o leiaf un sedd yn etholiad blaenorol y Senedd; neu (ii) tri neu fwy o Aelodau nad ydynt yn bodloni'r meini prawf yn Rheol Sefydlog 1.3(i), sydd wedi hysbysu'r Llywydd eu bod yn dymuno cael eu trin fel grŵp gwleidyddol, ac wedi bodloni'r Llywydd bod amgylchiadau eithriadol yn gymwys"⁵

At ddibenion dyrannu PPSA, mae'r Penderfyniad yn diffinio plaid wleidyddol fel:

"(i) grŵp o Aelodau sy'n perthyn i'r un Blaid Wleidyddol a gofrestrwyd gyda'r Comisiwn Etholiadol, neu (ii) grŵp yr ystyrir ei fod yn grŵp yn unol â Rheol Sefydlog 1.3 (ii), Rheolau Sefydlog Senedd Cymru, neu (iii) Aelod unigol sydd wedi rhoi gwybod i'r Tîm Cymorth Busnes i Aelodau ei fod yn aelod o Blaid Wleidyddol gofrestredig"

⁴ Senedd Ewrop (2021) *Financing of political structures in EU Member States – How funding is provided to national political parties, their foundations and parliamentary political groups and how the use of funds is controlled*
https://www.europarl.europa.eu/meetdocs/2014_2019/plmrep/COMMITTEES/AFCD/DV/2021/10-27/2021-JUNE_PE694.836_Financingpoliticalstructures_withAnnex3_EN.pdf

⁵ Senedd Cymru: Busnes y Senedd (2023) Rheolau Sefydlog Senedd Cymru Medi 2023

Mae'r gwahaniaeth rhwng grŵp plaid seneddol a phlaid wleidyddol yn hollbwysig. Mae'r berthynas rhwng y ddau yn amrywio rhwng cenhedloedd, ac mae'r rheolau o ran eu hariannu hefyd yn amrywio i raddau gwahanol. Fodd bynnag, yn gyffredinol, mae grŵp plaid seneddol yn canolbwyntio'n benodol ar waith y Senedd dan sylw a dyletswyddau ei Haelodau etholedig. Yn y cyfamser, mae plaid wleidyddol yn cymryd rhan mewn gweithgarwch penodol o ran ymgyrchu etholiadol, ac mae ei haelodaeth yn fwy eang o lawer na'i haelodau etholedig.

3. Cymariaethau â'r DU

Mae gan bob un o ddeddfwrfeydd y DU system o gymorth ariannol ar gyfer grwpiau seneddol pleidiau ar waith. Fodd bynnag, mae'r systemau hyn yn wahanol mewn rhai ffyrdd sylfaenol. Er bod rhai yn cynnig cymorth ariannol i bob grŵp o fewn y senedd, mae eraill yn cyfyngu hyn i grwpiau **nad ydynt** yn cael eu cynrychioli yn y Llywodraeth yn unig. Mae rhai yn cynnwys darpariaeth benodol ar gyfer arweinydd yr wrthblaid tra nad yw eraill yn gwneud hynny. Mae'r modelau hefyd yn wahanol o ran pwy sy'n gyfrifol am osod a gweinyddu'r gefnogaeth a'r mecanweithiau adrodd sydd ar waith i sicrhau cydymffurfiaeth â rheolau perthnasol.

Senedd y DU: Cymorth ariannol i wrthbleidiau ("arian byr")

Cyflwynwyd "arian byr" am y tro cyntaf ym 1975, i gydnabod bod angen rhagor o gymorth ar wrthbleidiau yn Senedd y DU. Gweinyddir y cynllun o dan benderfyniad y Tŷ ar 26 Mai 1999, fel y'i diwygiwyd gan benderfyniad ar 23 Mawrth 2016, ac fel y'i cydgrynhowyd ac y'i diweddarwyd gan Bwyllgor Amcangyfrif yr Aelodau.⁶

Diben

Mae Arian Byr ar gael i gynorthwyo'r gwrthbleidiau i gyflawni eu busnes seneddol. Mae Pwyllgor Amcangyfrif yr Aelodau yn nodi:

*"Given the nature of opposition work, Short Money and Representative Money can be used for party political purposes. In this context, Parliamentary Business may be defined as research associated with front bench duties, developing and communicating alternative policies to those of the Government of the day and shadowing the Government's front bench."*⁷ Mae'r Pwyllgor yn mynd ymlaen i ddweud nad yw'n cynnwys ymgyrchu gwleidyddol a gweithgareddau pleidiol tebyg, codi arian gwleidyddol, ymgyrchoedd aelodaeth na busnes personol neu breifat o unrhyw fath.⁸

Er bod newidiadau wedi'u gwneud i rai elfennau o Arian Byr ers 1975, mae rhai elfennau sylfaenol wedi aros yr un peth i raddau helaeth⁹:

⁶ Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin Rhif Briff 1663 (2023) *Short Money*

⁷ Pwyllgor Amcangyfrif yr Aelodau Tŷ'r Cyffredin (2023) *Consolidated list of provisions of the Resolutions of the House relating to expenditure charged to the Estimate for House of Commons as at February 2023*

⁸ Ibid.

⁹ Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin Rhif Briff 1663 (2023) *Short Money*

- Mae'r fformiwla yn ystyried nifer y seddi sydd gan y pleidiau yn y Tŷ, a nifer y pleidleisiau a gawsant yn yr etholiad diwethaf.
- Mae'r gefnogaeth yn dibynnu ar gael o leiaf dau aelod wedi'u hethol **neu** gael un Aelod ac o leiaf 150,000 o bleidleisiau
- Y symiau fel y nodir yw'r uchafswm sydd ar gael ac mae'n rhaid i bleidiau gyfrif am wariant

Dyddiad allweddol yn esblygiad Arian Byr yw 2016, pan gyflwynodd penderfyniad newydd nifer o fesurau ar gyfer gweithredu a rhoi gwybod am ddefnydd Arian Byr. Ar y pwynt hwn cafodd mynegeio blynyddol ei symud i CPI yn lle RPI, cyflwynwyd gofynion tryloywder newydd a chyflwynwyd terfyn ariannu isaf a therfyn ariannu uchaf ar gyfer y pleidiau lleiaf.¹⁰ Cyn hyn, roedd adrodd ar ddefnyddio Arian Byr yn gyfyngedig.

Dyraniad

Mae gan Arian Byr dair prif gydran¹¹:

1. Cyllid i gynorthwyo gwrthblaid i gyflawni ei busnes seneddol.
2. Cyllid teithio ar gyfer gwrthbleidiau a threuliau cysylltiedig
3. Cyllid ar gyfer costau rhedeg swyddfa Arweinydd yr Wrthblaid

Mae'r symiau ar gyfer 2023-24 fel a ganlyn¹²:

Cyllid cyffredinol i'r gwrthbleidiau	£21,438.33 am bob sedd a enillwyd + £42.82 am bob 200 pleidlais a enillwyd
Costau teithio ar gyfer gwrthbleidiau	£235,511.46 wedi'i ddsrannu rhwng pob plaid yn yr un gyfran o dan y cynllun sylfaenol uchod
Swyddfa Arweinydd yr Wrthblaid	£998,817.35

¹⁰ Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin Rhif Briff 1663 (2023) *Short Money*

¹¹ Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin Rhif Briff 1663 (2023) *Short Money*

¹² Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin Rhif Briff 1663 (2023) *Short Money*

Mae swm y cyllid sydd ar gael yn cael ei uwchraddio'n flynyddol yn ôl y cynnydd canrannol yn y mynegai prisiau defnyddwyr (CPI).

Adrodd a thryloywder

Rhaid i bleidiau gwleidyddol adrodd yn flynyddol ar eu defnydd o Arian Byr. Rhaid darparu tystysgrif archwilydd yn cadarnhau mai mewn perthynas â busnes seneddol y blaid yn unig yr aed i'r holl dreuliau a hawlir, ynghyd â gwybodaeth am staff a gyflogir drwy arian byr.

Cyhoeddir unrhyw staff y mae eu cyflog yn cael ei dalu 50% neu fwy gan gyllid swyddfa Arweinydd yr Wrthblaid. Ar gyfer rolau cyflog is, nodir band cyflog, i'r rhai sy'n ennill dros £70,000, cyhoeddir manylion cyflog llawn.

O dan y cynllun sylfaenol, rhaid rhestru nifer y staff a gyflogir ym mhob band cyflog sydd wedi'u hariannu o leiaf 50 y cant gan ddyraniad Arian Byr y blaid.

Mae'r wybodaeth hon wedi'i chyhoeddi ar [wefan](#) Tŷ'r Cyffredin.

Senedd yr Alban: Cymorth ariannol i grwpiau nad ydynt yn y Llywodraeth

Darperir cymorth ariannol i'r gwrthbleidiau yn Senedd yr Alban gan Gorff Corfforedig Senedd yr Alban. Cyfeirir at hyn hefyd fel "arian byr".

Diben

Rhoddodd Deddf yr Alban 1988 orchymyn yn y Cyngor i ganiatáu i Gorff Corfforaethol Senedd yr Alban ddarparu cymorth i wrthbleidiau drwy wneud taliadau i bleidiau gwleidyddol cofrestredig yn y Senedd at ddibenion cynorthwyo aelod o'r Senedd sy'n gysylltiedig â'r fath bleidiau i gyflawni eu dyletswyddau seneddol.

O dan y ddarpariaeth hon, pasiwyd Gorchymyn Senedd yr Alban (Cymorth i Bleidiau Gwleidyddol Cofrestredig) 1999. Cafodd hyn ei ddisodli gan Orchymyn Senedd yr Alban (Cymorth i Bleidiau Gwleidyddol) 2021.

Dyraniad

Mae'r fformiwla ar gyfer dyrannu cymorth ariannol wedi'i nodi yng Ngorchymyn 1999, sy'n nodi bod yr uchafswm y gellir ei dalu i unrhyw blaid gymwys yn sefydlog trwy gyfeirio at nifer yr Aelodau sy'n gysylltiedig â'r blaid honno wedi'i luosi â swm sefydlog.¹³

Mae'r swm sefydlog yn cynyddu bob blwyddyn yn unol â RPI.

Yn 2021, yr hawl flynyddol i bob aelod oedd £9060.¹⁴

Adrodd a thryloywder

Gwneir taliadau am dreuliau a godwyd yn unig, rhaid i hawliadau gynnwys manylion yr hyn sy'n cael ei hawlio a datganiad bod y blaid wedi ysgwyddo'r treuliau yn gyfan gwbl at ddibenion cynorthwyo Aelodau o Senedd yr Alban sy'n gysylltiedig â'r blaid i gyflawni eu dyletswyddau Seneddol.¹⁵

Ar ôl 31 Mawrth bob blwyddyn rhaid cyflwyno tystysgrif archwilydd proffesiynol annibynnol i Glerc y Senedd.¹⁶

Senedd yr Alban: Lwfans Arweinwyr Pleidiau

Mae Senedd yr Alban yn rhoi lwfans ychwanegol i arweinwyr y pleidiau – Lwfans Arweinwyr y Pleidiau – er mwyn cydnabod unrhyw ddyletswyddau ychwanegol sydd ganddynt. Er bod hyn ar wahân i arian byr, mae'n werth ei ystyried ochr yn ochr â'r cymorth i grwpiau pleidiau, gan fod y lwfans hwn yn darparu ar gyfer cymorth tebyg, yn benodol ar gyfer arweinwyr pleidiau.

Ystyr "arweinydd plaid gymwys" yw arweinydd seneddol plaid wleidyddol gofrestredig a gynrychiolir yn y Senedd, sef plaid wleidyddol gofrestredig sydd â dim llai na phymtheg aelod, ond nid yw'n cynnwys unrhyw arweinydd plaid seneddol sy'n aelod o weithrediaeth yr Alban

¹³ *Gorchymyn Senedd yr Alban (Cymorth i Bleidiau Gwleidyddol Cofrestredig) 1999*

<https://www.legislation.gov.uk/uksi/1999/1745/article/2/made>

¹⁴ "Members' expenses: Financial assistance to Non-Government groups ('Short Money')

<https://www.parliament.scot/msps/members-expenses/financial-assistance-to-non-government-groups-short-monies> [Cyrcwyd Hydref 2023]

¹⁵ "Members' expenses – financial assistance to non-Government groups"

<https://www.parliament.scot/msps/members-expenses/financial-assistance-to-non-government-groups-short-monies> [Cyrcwyd Hydref 2023]

¹⁶ *Ibid.*

neu yn is-Weinidog yr Alban, neu y mae aelod o'i blaid yn dal swydd o'r fath, yn nhermau Deddf yr Alban 1988.¹⁷

Diben

Nod y Cynllun yw darparu cymorth i gyflawni'r dyletswyddau ychwanegol fel arweinydd y blaid Seneddol, gan gynnwys rôl llefarydd neu gynrychiolydd y blaid.

Gall hyn gynnwys gwaith i baratoi nodiadau briffio, areithiau a mynd i ddigwyddiad i roi cyflwyniad ar bolisiâu ei blaid ef neu hi yn y Senedd. Ni chaniateir unrhyw waith sy'n ymwneud â chynhadledd wleidyddol plaid, cyfarfod ag ymgyrchwyr plaid neu ganfasio, boed hynny yn ystod etholiad neu fel arall. Ni chaniateir defnyddio'r lwfans hwn chwaith mewn perthynas â chodi arian neu waith achos etholaethol.

Yn unol â'r cyfyngiadau a nodwyd, gellir defnyddio'r lwfans i gyflogi staff, costau swyddfa angenrheidiol, costau teithio a threuliau dros nos i'r Aelod a'r staff ac offer a dodrefn swyddfa.

Dyraniad

Cyfraddau Lwfans Arweinydd Plaid yn 2023-24 yw¹⁸:

- Plaid wleidyddol gofrestrdig gyda 15-29 o Aelodau: £24,220
- Plaid wleidyddol gofrestrdig gyda 30 neu fwy o Aelodau: £46,002

Os bydd arweinydd plaid yn newid yn ystod blwyddyn, yna bydd y balans sy'n weddill ar gael i'r arweinydd newydd.

Pan fydd arweinydd cymwys y blaid yn newid neu pan fydd yn peidio â bod yn Aelod o Senedd yr Alban neu os bydd nifer aelodau plaid wleidyddol gofrestrdig yn disgyn islaw pymtheg, bydd cyn-arweinydd cymwys y blaid yn gymwys i gael lwfans dirwyn i ben.¹⁹

Bydd uchafswm y lwfans dirwyn i ben yn cyfateb i draean o'r uchafswm sy'n daladwy, yr oedd gan y cyn-arweinydd cymwys hawl iddo cyn unrhyw newid

¹⁷ "Party Leaders' expenses" <https://www.parliament.scot/msps/members-expenses/party-leaders-expenses> [Cyrchwyd 23.10.23]

¹⁸ "Members' expenses" <https://www.parliament.scot/msps/members-expenses/allowances-rates> [Cyrchwyd 23.10.23]

¹⁹ "Party Leaders' expenses" <https://www.parliament.scot/msps/members-expenses/party-leaders-expenses> [Cyrchwyd 23.10.23]

Gogledd Iwerddon: Cynllun Cymorth Ariannol ar gyfer Pleidiau Gwleidyddol

Mae'r Financial Assistance for Political Parties Act (Northern Ireland) 2000 yn darparu ar gyfer gwneud taliadau i unrhyw blaid wleidyddol at ddiben cynorthwyo aelodau o Gynulliad Gogledd Iwerddon sy'n gysylltiedig â'r blaid i gyflawni eu dyletswyddau yn y Cynulliad.²⁰

Rhoddir manylion am y cymorth hwn yn y Cynllun Cymorth Ariannol ar gyfer Pleidiau Gwleidyddol.

Diben

Mae pwrpas y Cynllun wedi'i nodi'n glir i ddweud ei fod at ddiben cynorthwyo aelodau'r Cynulliad i gyflawni eu dyletswyddau yn y Cynulliad.²¹ Gelwir hyn yn bwrpas awdurdodedig, neu "authorised purpose".

Mae canllawiau cysylltiedig y Cynllun yn nodi pa bwrpas awdurdodedig y gellir ei gymryd i gynnwys²²:

- Darparu cymorth gweinyddol gan y blaid i gynorthwyo aelodau o Gynulliad Gogledd Iwerddon, sy'n gysylltiedig â'r blaid wleidyddol honno, i gyflawni eu dyletswyddau yn y Cynulliad.
- Darparu ymchwil canolog i gynorthwyo aelodau o Senedd Gogledd Iwerddon, sy'n gysylltiedig â'r blaid wleidyddol honno, i gyflawni eu dyletswyddau yn y Senedd.
- Darparu addysg neu hyfforddiant gan y blaid i gynorthwyo aelodau o Gynulliad Gogledd Iwerddon, sy'n gysylltiedig â'r blaid wleidyddol honno, i gyflawni eu dyletswyddau yn y Cynulliad.
- Darparu gwasanaethau cymorth ymgysylltu / y cyfryngau gan y blaid i gynorthwyo aelodau o Gynulliad Gogledd Iwerddon, sy'n gysylltiedig â'r blaid wleidyddol honno, i gyflawni eu dyletswyddau yn y Cynulliad.
- Darparu cyfarpar neu wasanaethau (nad yw eu costau o bosibl yn cael eu talu o unrhyw ffynhonnell arall) i gynorthwyo aelodau o Gynulliad Gogledd Iwerddon, sy'n gysylltiedig â'r blaid wleidyddol honno, i gyflawni eu dyletswyddau yn y Cynulliad.

²⁰ *Financial Assistance for Political Parties (Northern Ireland) 2000*

<https://www.legislation.gov.uk/ni/2000/1/introduction> [Cyrchwyd Hydref 2023]

²¹ Cynulliad Gogledd Iwerddon (2016) *Financial Assistance for Political Parties Scheme*

²² Cynulliad Gogledd Iwerddon (2016) *Financial Assistance for Political Parties Scheme 2016 Scheme Guidance*
http://www.niassembly.gov.uk/globalassets/documents/your_mlas/fapp-guidance-2016-march2020update.pdf [Cyrchwyd Hydref 2023]

Mae'r canllawiau hefyd yn nodi'n glir na all unrhyw staff y mae eu costau cyflog yn cael eu talu gan y Cynllun hwn gymryd rhan mewn gwaith gwleidyddol pleidiol, gan gynnwys canfasio neu ymgyrchu yn ystod etholiadau, ac mae hyn yn cynnwys cymryd rhan mewn sgysiau gwleidyddol pleidiol.²³

Dyraniad

Mae'r Cynllun yn cynnwys dwy elfen²⁴:

1. Cymorth ariannol ar gyfer plaid at ddiben cynorthwyo aelodau'r Cynulliad gyflawni eu dyletswyddau yn y Cynulliad
2. Cymorth ariannol i blaid gymwys i helpu i ariannu costau cymorth gweinyddol i swyddfa Chwipiaid y blaid

Caiff lefel flynyddol y cymorth i bob plaid ei chyfrifo a'i hysbysu i arweinwyr y pleidiau ar ddechrau pob blwyddyn. Mae'r dyraniad rhwng pleidiau yn eithaf cymhleth ac fe'i nodir yn y Cynllun.

Mae pob elfen yn cael ei diweddarau'n flynyddol a'i hadolygu pe bai newid yn yr aelodau yn ystod y cyfnod.

Adrodd a thryloywder

Gellir gwneud hawliadau am ad-daliad yn fisol am gostau nad ydynt yn gyflog, gydag anfonebau gwreiddiol.

Bydd gwariant a hawlir gan bob plaid yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cynulliad a'i hysbysu i'r Comisiwn Etholiadol yn chwarterol. Bydd adolygiad blynyddol gan archwilydd annibynnol yn cael ei drefnu gan y Comisiwn.²⁵

²³ Cynulliad Gogledd Iwerddon (2016) *Financial Assistance for Political Parties Scheme 2016 Scheme Guidance*

²⁴ Cynulliad Gogledd Iwerddon (2016) *Financial Assistance for Political Parties Scheme 2016 Scheme Guidance*

²⁵ Cynulliad Gogledd Iwerddon (2016) *Financial Assistance for Political Parties Scheme 2016 Scheme Guidance*

4.Cymariaethau rhyngwladol

Mae seneddau ledled y byd yn cynnig pwyntiau cymharu pellach. Yn yr enghreifftiau isod mae ystod eang o ddulliau. Mae elfennau allweddol yn amrywio rhwng seneddau gan gynnwys pa grwpiau seneddol plaid sy'n gymwys i gael cefnogaeth, fformiwlâu ar gyfer dyrannu, gwahaniaeth rhwng gweithgarwch seneddol a gwleidyddol, lefelau adrodd a goruchwylio a lefel y presgripsiwn dros wariant a ganiateir.

Oireachtas – Gweriniaeth Iwerddon

Mae'r Oireachtas yn cynnwys Arlywydd Iwerddon a dau Dŷ'r Oireachtas – Senedd Éireann a Dáil Éireann. Y Dáil Éireann yw'r tŷ isaf, ac mae'n cynnwys 160 Teachta Dála (TDau). Er mwyn cymharu, mae'r ffocws isod ar y gefnogaeth a ddarperir i TDau, sydd fwyaf tebyg i rôl Aelodau o'r Senedd ac Aelodau Seneddol San Steffan.

Ymdrinnir â chostau staff grŵp ac ar gyfer gweithgareddau sy'n cefnogi gweithgarwch seneddol (e.e. ymchwil) o dan gynlluniau ar wahân. Mae staff ar gyfer pleidiau cymwys yn dod o dan Gomisiwn Tai'r Oireachtas (y Comisiwn) o dan y *Cynllun ar gyfer darparu cymorth ysgrifenyddol i aelodau o'r Oireachtas a'r pleidiau cymwys*. Tra bod arweinwyr pleidiau'n cael taliadau i gefnogi gweithgareddau seneddol o dan y Lwfans Gweithgareddau Seneddol, y mae ei amodau wedi'u nodi mewn deddfwriaeth.

Cynllun ar gyfer darparu cymorth ysgrifenyddol i aelodau o'r Oireachtas a'r pleidiau cymwys

O dan y Cynllun ar gyfer darparu cymorth ysgrifenyddol i aelodau o'r Oireachtas a'r pleidiau cymwys, mae gan y Comisiwn y pŵer i reoleiddio'r ddarpariaeth cyfleusterau ysgrifenyddol i Aelodau a phleidiau cymwys. Nid yw cyfleusterau ysgrifenyddol yn cael eu diffinio yn y ddeddfwriaeth ond yn gyffredinol fe'u cymerir i gwmpasu staff a gyflogir o dan y Cynllun, offer TGCh, offer swyddfa, cyfleusterau argraffu a chyfleusterau dylunio graffig.²⁶

O dan y cynllun mae Aelodau a phleidiau cymwys yn cyflogi ystod o rolau, y telir amdanynt gan y Comisiwn, sydd hefyd yn rheoleiddio nifer y staff a gyflogir.

²⁶ Tai'r Oireachtas (2020) (*Scheme for Secretarial Assistance*) *Scheme for the Provision of Secretarial Assistance for Members of the Houses of the Oireachtas and Qualifying Parties*

Mae gan gydlynwyr grwpiau (Aelodau sy'n gweithredu fel cydlynnydd Grŵp ar gyfer grwpiau technegol sy'n cynnwys aelodau annibynnol) hawl i Gynorthwydd Ysgrifenyddol ychwanegol.²⁷

Mynegir dyraniadau staffio a wneir i bleidiau cymwys yn nhermau swyddi Cynorthwydd Ysgrifenyddol, e.e. gellir dyrannu cyfwerth â thri Chynorthwydd Ysgrifenyddol i blaid. O fewn y strwythur graddio, mae gan bob gradd werth pwyntiau cyfatebol, a gall pleidiau ddefnyddio cyfanswm eu pwyntiau i gyflogi staff ar raddau amrywiol, cyn belled â'u bod yn aros o fewn eu dyraniad pwyntiau cyffredinol.²⁸

Enghraifft

Os dyrannwyd tri Chynorthwydd Ysgrifenyddol i blaid mae hyn yn cyfateb i gyfanswm o 99 pwynt. Gellir defnyddio'r 99 pwynt hwn i gyflogi unrhyw gyfuniad o staff (gweler y tabl isod), hyd at gyfanswm gwerth o 99.²⁹

Grade	“Points value” based on cost
Secretarial Assistant	33
Administrative Assistant	39
Parliamentary Assistant	45
Administrator	49
Senior Administrator	70
Chef de Cabinet	92

Lwfans Gweithgareddau Seneddol

A elwid gynt yn Lwfans Arweinydd Plaid, telir y Lwfans Gweithgareddau Seneddol i arweinydd plaid mewn perthynas â threuliau sy'n deillio o weithgareddau seneddol. Mae'r amodau ynghylch hawl i'r lwfans hwn wedi'u nodi mewn deddfwriaeth - Oireachtas (Ministerial and Parliamentary Offices) (Amendment) Act 2014.

²⁷ Ibid.

²⁸ Ibid.

²⁹ Ibid.

Mae'r canllawiau ar gyfer Arweinwyr y Pleidiau Seneddol yn nodi'r gwariant a ganiateir canlynol³⁰:

- gwaith gweinyddu cyffredinol gweithgareddau seneddol plaid gymwys
- darparu cyngor technegol neu arbenigol sy'n debygol o fod yn ofynnol mewn cysylltiad â chynigion deddfwriaethol neu fentrau seneddol posibl
- ymchwil a hyfforddiant
- ffurfio polisiau
- darparu gwasanaethau ymgynghorwyr, gan gynnwys ymgysylltu ag ymgynghorwyr cysylltiadau cyhoeddus
- polau neu samplu agwedd y cyhoedd mewn cysylltiad â dadleuon neu fentrau seneddol
- prynu gwasanaethau cymorth ar gyfer plaid seneddol gan y blaid
- talu unrhyw gyflog neu dâl anrhydedd i arweinydd seneddol mewn perthynas â dyletswyddau sy'n codi o'i weithgareddau fel arweinydd o'r fath yn wahanol i aelod o Dáil Éireann neu ddeiliad swydd weinidogol
- talu unrhyw gyflog neu dâl anrhydedd i berson arall mewn perthynas â dyletswyddau sy'n codi o'i weithgareddau mewn plaid wleidyddol
- darparu neu adennill gwariant trafndiaeth a gwariant personol sy'n codi gan arweinydd seneddol, swyddogion neu lefarydd o'r blaid seneddol o ganlyniad i swyddogaeth eu plaid seneddol
- adloniant.

Telir arian i arweinwyr grwpiau'r gwrthbleidiau a grwpiau'r Llywodraeth, ond gyda chyfradd is ar gyfer pleidiau'r llywodraeth (oddeutu traean yn llai), a fesul haen yn seiliedig ar nifer yr aelodau yn y grŵp.³¹

Dyma'r cyfraddau ar gyfer 2023-24:

- 10 Aelod cyntaf (TDau)
 - €64,368 – Cyfradd flynyddol fesul aelod
 - €42,912 – Cyfradd flynyddol fesul aelod (pleidiau'r llywodraeth)
- 11 i 30 Aelod (TDau)

³⁰ Standards in Public Office Commission (2023) *Parliamentary Activities Allowance Guidelines for Parliamentary Party Leaders*

³¹ "Parliamentary Activities Allowance <https://www.gov.ie/en/publication/762d55-parliamentary-activities-allowance/#>

- €51,493 – Cyfradd flynyddol fesul aelod
- €34,329 – Cyfradd flynyddol fesul aelod (pleidiau llywodraeth)
- Mwy na 30 Aelod (TDau)
 - €25,754 – Cyfradd flynyddol fesul aelod
 - €17,169 – Cyfradd flynyddol fesul aelod (pleidiau llywodraeth)

Rhaid i arweinydd pob plaid a phob aelod annibynnol lunio datganiad o wariant ar gyfer y lwfans a'i gyflwyno, ynghyd ag adroddiad gan archwilydd annibynnol, i'r Comisiwn Safonau mewn Swyddi Cyhoeddus. Yna, mae'n ofynnol i'r Comisiwn lunio adroddiad ar y defnydd o'r lwfans a gosod hwn gerbron yr Oireachtas.³² Cyhoeddir manylion ynghylch y gwariant ar **wefan y Comisiwn Safonau mewn Swyddi Cyhoeddus.**

Yr Almaen³³

Mae grŵp seneddol yn gymwys i gael arian cyhoeddus os yw'n cynnwys o leiaf 5% o ASau. Mae cyllid yn cynnwys dwy elfen - swm sylfaenol ac elfen yn seiliedig ar faint y grŵp.

Mae grwpiau'r gwrthbleidiau a'r llywodraeth yn gymwys i gael cyllid, ond i grwpiau'r gwrthbleidiau mae'r ddwy elfen o'r cyllid yn uwch. Mae'r swm sylfaenol fesul aelod ac atchwanegiadau ar gyfer grwpiau gwrthbleidiau yn cael eu penderfynu bob blwyddyn gan y senedd.

Yn 2020 roedd 6 grŵp seneddol, pob un yn cael swm sylfaenol o €5,425,452 y flwyddyn, gyda chynnydd 15 y cant ar gyfer grwpiau'r wrthblaid. Hefyd, roedd pob grŵp yn cael €113,256 fesul AS, gyda chynnydd 10 y cant ar gyfer grwpiau'r wrthblaid.

Nodir bod grwpiau seneddol yn cael cefnogaeth gyhoeddus er mwyn cyflawni dyletswyddau seneddol ac i hysbysu'r cyhoedd am eu gweithgareddau, ac na ddylid defnyddio'r cronfeydd hyn at ddibenion plaid wleidyddol.

Rhaid i'r grwpiau adrodd yn flynyddol ar eu defnydd o gyllid, gan gynnwys darparu dadansoddiad o'r gwariant yn ôl categori. Caiff cywirdeb yr adroddiadau hyn ei wirio gan y Llys Archwilwyr, sydd hefyd yn cynnal archwiliadau llawn o bryd i'w gilydd.

Fodd bynnag, mae diffyg penodoldeb yn y rheolau, ac nid oes diffiniad clir o beth yw dyletswyddau grŵp seneddol, na sancsiynau am ddefnydd afreolaidd o arian neu rwymedigaeth

³² Ibid.

³³ Senedd Ewrop (2021) *Financing of political structures in EU Member States – How funding is provided to national political parties, their foundations and parliamentary political groups and how the use of funds is controlled*

i ad-dalu arian sydd wedi'i gamddefnyddio. Nodir hefyd bod cymorthdaliadau ar gyfer grwpiau seneddol pleidiau yn yr Almaen yn uchel.

Awstria³⁴

Ym mhob siambr yn Senedd Awstria gall unrhyw blaid wleidyddol sydd ag o leiaf bum cynrychiolydd ffurfio grŵp seneddol. Mae pob grŵp yn gymwys i gael cymhorthdal yn cynnwys swm sylfaenol ac elfen yn seiliedig ar faint y grŵp. Mae'r gydran ychwanegol yn cael ei chodi 3 y cant pan fydd cyfran yr ASau benywaidd yn y grŵp yn fwy na 40 y cant.

Mae'r swm sylfaenol a'r gydran ychwanegol yn seiliedig ar gyflogau swyddogion ffederal.

Yn 2020, cafodd pum grŵp seneddol gyfanswm o €23,380,000 rhyngddynt.

Mae'r cymhorthdal i'w ddefnyddio i gyflawni dyletswyddau seneddol, gan gwmpasu treuliau ar gyfer gofod swyddfa, offer technegol, staff, digwyddiadau, gwaith cysylltiadau cyhoeddus a gweithgareddau gwybodaeth.

Nid oes unrhyw reoliadau ar waith ynghylch cyflwyno adroddiad ar y defnydd o'r cyllid hwn a dim mecanweithiau ar gyfer rheoli'r defnydd o'r cronfeydd.

Seland Newydd

Nodir y cymorth i aelodau a phleidiau yn Senedd Seland Newydd yng Nghyfarwyddiadau'r Llefarydd. Mae'r Llefarydd yn gwneud Cyfarwyddiadau o dan adran 23 o Ddeddf Aelodau Seneddol (Taliadau a Gwasanaethau) 2013, i ddarparu gwasanaethau a chyllid cymorth i aelodau seneddol a phleidiau seneddol.³⁵

Daeth y Cyfarwyddiadau a adolygwyd i rym ar 20 Medi 2020, y diwrnod ar ôl yr etholiad.

Diben

Yn ôl y cyfarwyddiadau, rhaid defnyddio cyllid cymorth pleidiau i ddarparu gwasanaethau ac adnoddau at ddiben cefnogi pleidiau ac aelodau yn eu gweithrediadau seneddol.³⁶ Yng Nghyfarwyddiadau 2020, cyfunwyd y termau 'busnes seneddol' a 'diben seneddol'

³⁴ Ibid.

³⁵ "Speaker's Directions 2020" <https://www.parliament.nz/en/pb/parliamentary-rules/directions-determinations/speaker-s-directions-2020/> [Cyrchwyd Hydref 2023]

³⁶ Senedd Seland Newydd (2020) *Speaker's Directions 2020*

("parliamentary business" a "parliamentary purpose") yn un term, sef diben seneddol ("parliamentary purpose") i ddod â chysondeb i iaith Deddf Gwasanaeth Seneddol 2000.³⁷

"The uses of party and member support funding include the following:

- Discharging their responsibilities as legislators and elected representatives
- Developing, researching, critiquing and communicating policy
- Communicating with constituents and other communities of interest
- Meeting the operational needs of each party in fulfilling its parliamentary responsibilities
- Meeting the costs of ICT equipment for members' direct use and for use by their support staff in their offices in and out of Parliament."³⁸

Gellir defnyddio'r cyllid ar gyfer cyhoeddusrwydd. Mae'r Cyfarwyddiadau yn nodi'n fanwl yr hyn a ganiateir yn hyn o beth, gan nodi y gellir talu costau cyhoeddusrwydd dim ond o gyllid cefnogi pleidiau ac aelodau os oes ganddo, yn ôl y Cyfarwyddiadau, ddiben seneddol, nid yw'n cynnwys etholiad, yn nodi ar adeg y cyfathrebu y talwyd amdano gan y gwasanaeth seneddol, yn nodi'n glir yr aelod sy'n gyfrifol am y cyhoeddusrwydd ac nid yw'n disgrifio nac yn awgrymu bod aelod yn cynrychioli etholaeth nad yw'n aelod ar gyfer yr etholaeth.

Ni cheir defnyddio cyllid ar gyfer etholiadau ac mae'r nodyn esboniadol i'r Cyfarwyddiadau yn darparu rhestr i ddangos gweithgarwch cyfathrebu a fyddai'n anghymwys.

Dyraniad

Mae plaid yn cael hawlio cyllid arweinyddiaeth a chyllid ar gyfer pleidiau a grwpiau.

1. *Cyllid Arweinyddiaeth*³⁹

Mae arweinyddiaeth yn cynnwys dwy elfen – swm y blaid, ynghyd â swm fesul aelod anweithredol o'r cawcws. Yn ystod y flwyddyn fwyaf diweddar, sef tymor seneddol 2020-2023 (blwyddyn 3), roedd hyn yn cyfateb i \$123,300 ynghyd â \$69,000 (fesul aelod anweithredol).

³⁷ "Speaker's Directions 2020" <https://www.parliament.nz/en/pb/parliamentary-rules/directions-determinations/speaker-s-directions-2020/> [Cyrchwyd Hydref 2023]

³⁸ "Chapter 4 Members' Conditions of Service"

<https://www.parliament.nz/mi/visit-and-learn/how-parliament-works/parliamentary-practice-in-new-zealand/chapter-4-members-conditions-of-service/> [Cyrchwyd 28.09.23]

³⁹ Senedd Seland Newydd (2020) *Speaker's Directions 2020*

2. Cyllid pleidiau a grwpiau⁴⁰

Mae cyllid pleidiau a grwpiau hefyd yn gysylltiedig â nifer yr aelodau yn y cawcws. Swm y cyllid i'r pleidiau a'r grwpiau ar gyfer pob plaid ar gyfer pob blwyddyn yw cyfanswm gwerth y swm fesul aelod o'r cawcws, yn ogystal â gwerth y swm fesul aelod anweithredol yn y cawcws.

Yn ystod blwyddyn fwyaf diweddar tymor seneddol 2020-2023 (blwyddyn 3), roedd hyn yn cyfateb i \$22,800 ynghyd â \$5,600 fesul aelod anweithredol yn y cawcws.

Adrodd⁴¹

Rhaid i bob plaid baratoi cyllideb ar ddechrau pob tymor seneddol sy'n nodi sut y maent yn bwriadu gwario eu dyraniadau. Rhaid i bob arweinydd plaid a chwip fonitro gwariant eu plaid ac aelodau eu plaid yn fisol.

Rhaid i bob plaid ardystio a yw ei gwariant fesul eitem yn cydymffurfio â'r Cyfarwyddiadau.

Y Ffindir⁴²

Mae'r Ddeddf ar Grwpiau Seneddol (2012) yn darparu ar gyfer grwpiau seneddol a'u cofrestriad, y cymorth a roddir i grwpiau seneddol, gweithredu a goruchwyllo gwariant.

Cefnogir grwpiau gyda grantiau ar gyfer cyflogi personél a threuliau perthnasol eraill. Mae pob grŵp yn cael yr un swm sylfaenol gydag arian ychwanegol yn seiliedig ar nifer yr ASau yn y grŵp. Mae'r swm sylfaenol a delir i grwpiau yn cael ei gyfrifo gan ddefnyddio canlyniadau'r etholiad.

Yn y gyllideb ar gyfer 2021 mae swyddfeydd grŵp yn cael €4,510,000. Ar gyfer pob cynrychiolydd maent yn cael €1,724 y mis.

Dylai adnoddau grwpiau seneddol fod ar wahân i adnoddau pleidiau, ond yn ymarferol nid oes gan y senedd unrhyw gyfrifoldeb goruchwyllo mewn perthynas â defnyddio adnoddau'r plaid.

⁴⁰ Senedd Seland Newydd (2020) *Speaker's Directions 2020*

⁴¹ Senedd Seland Newydd (2020) *Speaker's Directions 2020*

⁴² SITRA (2021) *The role of parliamentary groups and parties in the Nordic Nations*

Sweden⁴³

Mae'r gefnogaeth i grwpiau seneddol wedi'i rhannu'n bedwar categori, gyda dyraniadau uwch i grwpiau'r wrthblaid.

Cymorth sylfaenol	Elfen graidd ynghyd ag elfen yn seiliedig ar nifer yr ASau yn y grŵp. Yn 2021, roedd yr elfen graidd tua €162,000 - mae grwpiau'r llywodraeth yn cael un elfen graidd, mae grwpiau gwrthblaid yn cael dau. Y gydran ychwanegol oedd tua €5400 fesul AS
Ysgrifenyddion gwleidyddol	Cyferwerth â chyflog un ysgrifennydd gwleidyddol i bob AS (€6200 y mis) Y grwpiau sy'n penderfynu ar ddefnydd y cymorth hwn

Y ddau gategori arall o gefnogaeth yw teithiau dramor a hyfforddiant iaith ASau.

Mae grwpiau'n adrodd yn flynyddol i'r Senedd ar eu defnydd o gefnogaeth seneddol.

Norwy⁴⁴

Yn Norwy, nid oes gan ASau eu cynorthwywyr seneddol eu hunain ac nid ydynt yn cael unrhyw gymorth ariannol ar gyfer gwaith seneddol (y tu hwnt i'w cyflog).

Mae grwpiau seneddol yn cael cymorth ariannol, y mae'r rhan fwyaf ohono'n cael ei ddefnyddio ar gyflogi cynorthwywyr ac ar ofod swyddfa.

Ceir gwahaniaeth clir rhwng grwpiau seneddol a phleidiau gwleidyddol, gyda rheolau ar waith sy'n gwahardd cyllid ariannol gweithgarwch seneddol rhag cael ei ddefnyddio gan bleidiau gwleidyddol.

Mae tri math o gymorth i grwpiau seneddol:

1. Cymorth sylfaenol i'r holl grwpiau. Tua €500,000 yn 2021.
2. Cymorth ychwanegol i bob aelod o'r grŵp. Tua €80,000 fesul aelod yn 2021.
3. Cymorth ychwanegol i grwpiau'r gwrthbleidiau, yn dibynnu ar faint y grŵp:
 - a. Llai na 2 = dim cymorth ychwanegol

⁴³ Ibid.

⁴⁴ Ibid.

- b. 3-4 aelod = 50% yn fwy o gymorth
- c. 5 a throsodd = 100% yn fwy o gymorth

Rhaid cyflwyno cyfrifon blynyddol ac adroddiad archwilio i Bresidiwm y Storting.⁴⁵

Gwlad yr Iâ⁴⁶

Mae cymorth grŵp seneddol (a chymorthdaliadau plaid) yn cael eu harwain gan y Ddeddf ar Gyllid Sefydliadau Gwleidyddol a Datgelu eu Gwybodaeth.

Nid oes diffiniad ffurfiol ar gyfer trefnu grwpiau seneddol; y grwpiau sy'n penderfynu ar y modd o rannu tasgau a rhwymedigaethau o fewn eu grŵp.

Er mwyn cryfhau gwaith seneddol, mae'r senedd yn darparu cynorthwyr gwleidyddol i grwpiau (cyfanswm o 30).

Mae cymorth i grwpiau yn cael ei dalu gan y Weinyddiaeth Cyllid a Materion Economaidd. Mae swm y cymorth a ddosberthir yn dibynnu ar gyllideb y wladwriaeth, ac mae'r swm a dderbynnir yn seiliedig ar nifer yr ASau yn y grŵp (1 AS = 1 uned). Mae pob grŵp yn cael un uned gymorth ychwanegol.

Rhennir y 12 uned ychwanegol ymhlith y grwpiau nad ydynt yn y llywodraeth, gyda chyfran yn cael ei gwneud yn gymesur â maint y grŵp.

Denmarc⁴⁷

Yn ôl rheolau gweithdrefnol y senedd, mae'r grŵp seneddol yn cyfeirio at grŵp sy'n cynnwys ASau sydd wedi eu hethol o'r un blaid ac sy'n cynrychioli'r un blaid â grŵp; sydd wedi'i sefydlu fel grŵp neu blaid seneddol newydd; sy'n gysylltiedig â phlaidd bresennol nad yw'n cael ei chynrychioli yn y senedd neu lle nad yw'r grŵp bellach yn cynrychioli'r un blaid ond sy'n gweithredu ar sail arferion a gytunir yn gyffredin.

Mae grwpiau'n cael taliadau misol ar gyfer cyflogau cynorthwyr. Dosberthir dyraniad i bob aelod, gyda chyfraddau uwch i'r gweinidogion a'r Llefarydd.

⁴⁵ "Changes to the guidelines on the parliamentary party group grants" <https://www.stortinget.no/en/In-English/About-the-Storting/News-archive/Front-page-news/2020-2021/changes-to-the-guidelines-on-the-parliamentary-party-group-grants/> [Cyrchwyd 06.11.23]

⁴⁶ Ibid.

⁴⁷ Ibid.

Mae grwpiau gydag o leiaf 4 aelod yn cael DKK 311,964 y mis (2020).

Mae'r cymorth yn cynnwys swm sylfaenol fesul grŵp ac fesul aelod. Mae'r swm sylfaenol yr un peth ar gyfer pob grŵp gyda 4+ o aelodau. Caiff grwpiau hefyd gymorth ychwanegol ar gyfer defnyddio arbenigwyr.

Mae grwpiau sydd â llai na 4 aelod yn cael dyraniad llai yn seiliedig ar nifer yr aelodau.

Defnyddir yr arian hwn ar gyfer talu cyflogau ysgrifenyddiaeth grŵp seneddol, cynghorwyr, arbenigwyr cyfathrebu ac ati.

Gall ASau unigol nad ydynt yn perthyn i grŵp hefyd wneud cais am ddyraniad.

Llenyddiaeth bresennol ar ddulliau cymharol

Yr UE

Mewn adroddiad a baratowyd ar gyfer Senedd Ewrop yn 2021, cynhaliwyd cymhariaeth o ariannu gwleidyddol ar draws Aelod-wladwriaethau, gan gynnwys cymorth ariannol i grwpiau seneddol pleidiau. Mae'r adroddiad yn cynnig nifer o fyfyrnodau yn seiliedig ar y gymhariaeth hon.

Mae hyn yn cynnwys⁴⁸:

- Dylai rheoliadau ar gymorth ariannol a chymorth arall i grwpiau seneddol gynnwys rheolau clir ar y defnydd a ganiateir o'r adnoddau hyn, gan gynnwys yn benodol pa fathau o wariant a ganiateir a pha rai nad ydynt yn cael eu caniatáu.
- Er mwyn codi ymwybyddiaeth o grwpiau seneddol sy'n ymwneud â pha ddefnydd o gymorth cyhoeddus sy'n cael ei ganiatáu neu beidio gael eu caniatáu, gall seneddau ystyried cyhoeddi canllawiau ymarferol. Dylai grwpiau seneddol allu ymgynghori ag awdurdod o fewn y Senedd i ofyn am gyngor.
- Yn ôl y gyfraith, dylai grwpiau seneddol orfod adrodd yn flynyddol i gorff goruchwyllo ar arian a dderbyniwyd a sut y cafodd ei ddefnyddio. Dylai hyn gynnwys dadansoddiad o gategoriâu o wariant a dylai grwpiau orfod cadw tystiolaeth o'r holl daliadau at ddibenion goruchwyllo.
- Dylai'r rheoliadau gynnwys sancsiynau priodol am gamddefnyddio arian.
- Dylai'r corff goruchwyllo fod â'r galluedd a'r pŵer i ganfod achos o gamddefnyddio.

⁴⁸ Senedd Ewrop (2021) *Financing of political structures in EU Member States – How funding is provided to national political parties, their foundations and parliamentary political groups and how the use of funds is controlled*

Y cenhedloedd Nordig

Cymharodd adroddiad yn 2021 gan SITRA, Cronfa Arloesedd y Ffindir, rôl grwpiau a phleidiau seneddol yn y Ffindir, Sweden, Norwy, Denmarc a Gwlad yr Iâ. Yn yr adroddiad, edrychwyd ar rôl, perthynas a chyllid pleidiau gwleidyddol a grwpiau seneddol pleidiau.

Yn seiliedig ar y gymhariaeth hon, nododd SITRA nifer o arsylwadau a chanfyddiadau⁴⁹:

- Mae'r system etholiadol yn effeithio ar sut mae grwpiau seneddol yn gweithredu ar draws y gwledydd Nordig. Mewn systemau lle mae'r blaid yn cael ei phwysleisio, mae rôl y blaid yn y grŵp seneddol yn aml yn fwy sylweddol, sydd yn ei dro yn dylanwadu ar waith y grwpiau a'r gefnogaeth sydd ei hangen arnynt.
- Mae yna wahanol ddulliau y mae gan grwpiau hawl i gael cyllid drwyddynt. Yn y Ffindir nid yw grwpiau'r wrthblaid yn cael unrhyw gymorth ychwanegol. Yn Sweden, mae grwpiau'r wrthblaid yn cael cyllid ychwanegol, ac yn Norwy a Gwlad yr Iâ dim ond i grwpiau'r wrthblaid y mae cymorth ar gael.
- Mae'r berthynas a'r arferion gwaith rhwng y llywodraeth a'r wrthblaid, gan gynnwys rôl grwpiau seneddol pleidiau, yn cael eu dylanwadu gan draddodiad gwlad o naill ai llywodraethau lleiafrifol neu fwyafrifol. "This is directly relevant for the role of the parliamentary group and its increased importance in politics compared to the party."
 - Mewn llywodraethau lleiafrifol, mae'r berthynas rhwng y llywodraeth a grwpiau seneddol eraill yn agosach, gan fod y llywodraeth yn ddibynnol ar gefnogaeth y gwrthbleidiau. Mae nifer y trafodaethau yn uwch, ac felly mae rôl grwpiau yn fwy sylweddol.
 - Mewn llywodraethau mwyafrifol, mae gwaith grwpiau seneddol yn agosach at wleidyddiaeth etholiadol, lle mae beirniadaeth neu gefnogaeth i gamau gweithredu'r llywodraeth yn rôl allweddol i grwpiau seneddol y gwrthbleidiau.
- P'un a yw'r llywodraeth yn fwyafrifol neu leiafrifol, dywed yr adroddiad: "the role of an opposition parliamentary group is particularly arduous...and several of the [Nordic] countries have developed additional support...to reduce this workload."
 - "The groups in the government receive support and services through ministers, while the opposition parties, which are strongly involved in the drafting of legislation in minority governments, also do a lot of preparatory work without ministry support."
- Mae lefelau gwahanol o wahaniaethu rhwng pleidiau gwleidyddol a grwpiau seneddol. Yn Norwy mae'r senedd yn ceisio cadw'r ddau sefydliad hyn ar wahân yn glir ac mae

⁴⁹ SITRA (2021) *The role of parliamentary groups and parties in the Nordic Nations*

rheolau ar waith sy'n cyfyngu ar y defnydd o gyllid i fusnes seneddol. Yng Ngwlad yr Iâ nid oes ffiniau o'r fath ar waith.

5. Casgliad

Mae grwpiau pleidiau seneddol yn bodoli mewn nifer o ddeddfwrfeydd. Fodd bynnag, ymddengys nad oes diffiniad y cytunir arno ynghylch pwrpas y grwpiau hyn, nac i ba raddau y dylent gael eu cefnogi gan y Senedd y maent yn gweithredu ynddi.

Felly, er nad oes modd i'r gymhariaeth hon fynegi barn gyffredin, mae'n ceisio rhoi syniad o'r materion allweddol y dylai adolygiad o'r PPSA eu hystyried, ynghyd â'r pwyntiau allweddol o gydgyfeiriad neu wahaniaeth rhwng Seneddau.

1. Ar y cyfan, mae'r cymorth ariannol a ddyrennir i grwpiau pleidiau seneddol yn gysylltiedig mewn rhyw ffordd â maint y grŵp. Yn aml, mae gan grwpiau hawl i swm craidd, gydag elfen ychwanegol y mae ei gwerth yn cael ei chyfrifo fesul aelod o'r grŵp.
2. Mae llawer o Seneddau yn gwahaniaethu'n glir rhwng gweithgarwch seneddol a gweithgarwch gwleidyddol, gyda rheolau a rheoliadau ar waith sy'n ceisio cyfyngu'r defnydd o gyllid seneddol i weithgarwch seneddol.
3. Mae lefel y manylion a ddarperir i grwpiau o ran yr hyn sy'n wariant cymwys neu'n wariant anghymwys yn amrywio'n sylweddol. Mae gan rai Seneddau ganllawiau mwy manwl ar waith, ac mae gan eraill ddiffiniad lefel uchel o "fusnes seneddol" y disgwylir i bob grŵp ac Aelod gydymffurfio ag ef.
4. Mae nifer o'r seneddau sydd wedi'u cynnwys yn y papur hwn yn nodi bod gwariant ar gyfathrebu cyfreithlon neu weithgarwch cysylltiadau cyhoeddus yn wariant cymwys, ond yn datgan yn bendant na all y gweithgarwch hwn gynnwys unrhyw ymgyrchu gwleidyddol na chyfathrebu mewn perthynas ag ymgyrchu gwleidyddol.
5. Mewn llawer o Seneddau, yn enwedig yr enghreifftiau rhyngwladol y soniwyd amdanynt, mae'n arfer gyffredin i ddarparu cyllid i'r holl bleidiau a gynrychiolir yn y Senedd dan sylw, gan gynnwys y rhai a gynrychiolir yn y Llywodraeth. Mae hefyd yn arfer gyffredin i grwpiau'r gwrthbleidiau gael dyraniad mwy, naill ai drwy gymhorthdal ychwanegol a ddarperir i'r grwpiau hynny neu drwy ostyngiad sy'n cael ei gymhwyso i'r grwpiau a gynrychiolir yn y Llywodraeth.
6. Mae gan nifer fach o Seneddau drefniadau penodol ar gyfer darparu cymorth i arweinwyr y gwrthbleidiau. Ymddengys fod y sefyllfa hon yn llai cyffredin yn yr enghreifftiau rhyngwladol, lle mae'r ffocws ar grwpiau yn hytrach nag arweinwyr wrth bennu dyraniadau. Fodd bynnag, mae'n arfer gyffredin i arweinwyr y grwpiau gael eu nodi mewn rheolau a rheoliadau sy'n ymwneud ag adrodd ar y defnydd o gymorth seneddol.
7. Mae gan y rhan fwyaf o Seneddau system ar waith lle mae grwpiau ac Aelodau yn cael eu dwyn i gyfrif ynghylch eu defnydd o gymorth ariannol. Y dull mwyaf cyffredin yw ei gwneud yn ofynnol i grwpiau adrodd yn rheolaidd ar eu defnydd o arian, ynghyd â rhyw fath o archwilio annibynnol.

6. Atodiad Un: Crynodeb o ddyraniadau gwahaniaethol ar gyfer y grwpiau sydd yn y llywodraeth a grwpiau anllywodraethol

Mae'n gyffredin mewn llawer o'r enghreifftiau a adolygir i gyllid grŵp gael ei dalu i'r holl grwpiau ond gyda dyraniadau gwahaniaethol ar gyfer grwpiau llywodraeth ac anllywodraethol. Mae sawl ffordd o wneud hyn.

1. Gostyngiad i ddyraniadau'r llywodraeth
2. Ychwanegiad i ddyraniadau anllywodraethol
3. Modelau lle mae grwpiau anllywodraethol yn cael elfennau ychwanegol

Deddfwrfa	Gwahaniaethol
Iwerddon	Gostyngiad o 1/3 yn nyraniad grŵp y Llywodraeth
Yr Almaen	Dyraniad craidd grwpiau gwrthblaid yn cynyddu 15% a'r dyraniad fesul Aelod yn codi 10%
Norwy	Cynyddu dyraniad grwpiau â 3-4 Aelod 50% Cynyddu dyraniad grwpiau â 5+ Aelod 100%
Seland Newydd	Dyraniadau craidd a ddarperir i bob grŵp; dyraniad fesul Aelod yn unig ar gyfer aelodau anweithredol o'r grŵp
Sweden	Mae grwpiau'r gwrthbleidiau yn cael 2 elfen graidd; grwpiau'r llywodraeth 1 elfen graidd Mae pob grŵp yn cael dyraniad fesul Aelod
Gwlad yr Iâ	Unwaith y bydd unedau craidd wedi'u dyrannu i bob grŵp, rhennir y 12 uned sy'n weddill rhwng grwpiau'r gwrthbleidiau